**Cyngor Cymuned Llaneilian (381)**
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Mehefin 10, 2025 am 7yh yn Neuadd Bentref Penysarn.

**Presennol:** Alan Williams, Carol Whitaker, Gordon Hayes, Patsy Allen, Hefina Williams, Ian Evans, Derek Owen Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** John Griffiths, James Roe, Alison Williams, Dafydd Griffiths, Dewi Jones, Aled Morris Jones, Liz Wood

**1 Croeso**
Bu Alan Williams gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.

**2 Datgan Diddordeb**
Ian Evans - cynllunio Tynrhos
Carli Evans Thau – cynllunio Tynrhos
Hefina Williams – Perllan
Carol Whitaker – Lon Lletroed-Lon Gors

**3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Bu Patsy Allen ofyn bod y cofnodion yn nodi bod Dafydd Griffiths hefyd wedi bod ynghlwm a trin a thwtio beddi Teulu Ty Moel Isaf a'r Bedd Rhyfel. Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig Patsy Allen, eilio Gordon Hayes.

**4 Materion yn Codi**
Dim nad oes wedi eu cynnwys ar yr agenda.

**5 Diweddariadau**

5.1 Caeau Chwarae – cafwyd adroddiad gan Gordon Hayes. Cytuno archebu pecyn o 'bolt caps' i drin yr offer chwarae yn Lon Tyddyn Waen. Nodwyd bod y giat bach wedi cael sylw bellach. Cafwyd wybod bod gwaith wedi dechrau ar drin y ffens ym Maes Llwyfo a'r defnyddiau wedi eu harchebu.

5.2 Llithrfa – cadarnawyd bod ceisiadau am 16 goriad hyd yma. Mae'r postyn newydd yn ei le, ac hyd yma (pythefnos) wedi cael llonydd. Cafwyd wybod bod Maldwyn Griffith yr harbwrfeistr ar fin ymddeol, nid oes unrhyw un wedi ei benodi yn ei le hyd yma. Nodwyd nad oedd unrhyw ymateb gan CSYM ynglyn a'r polyn fflag, cytuno ar gynnig Derek Owen, bod cysylltu a Christian Branch i dynnu sylw a pwysleisio pwysigrwydd cael polyn a fflag er diogelwch. Cytuno byddai'r Cyngor Cymuned yn trefnu gosod fflag, a'i gynnwys yng ngostau gweinyddu'r cynllun llithrfa, ond na fyddai posib trin y polyn heb ei fod yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned gan CSYM.

5.3 Mynwent – nodwyd bod peth o'r gwaith walio wedi ei gwblhau, a bod y gwaith ar y gardd goffa wedi ei ohurio am dair wythnos. Daw pryderon eto am dwrch daear a bu cytuno byddai cadw golwg ar y sefyllfa. Daw pryder am garreg sydd wedi ei osod yn rhy agos i lwybr, cytuno gwneud ymholiadau pellach.

5.4 Polisi a Chyllid – dim i'w adrodd

5.5 Cronfa TMI – cadarnhawyd bod y meinicau ar gyfer y cysgodfannau bws wedi eu harchebu, cytuno byddai prynnu un mainc fel arall ar gyfer y safle ger Balog. Bu'r aelodau bwysleisio eu bod yn hapus a'r cyflenwr, deunydd a gwydnwch y meinicau, ac er y gost eu bod gwerth yr arian.

Bu tynnu sylw bod angen glanhau a phaentio tu mewn y cysgofdan bws yn y sgwar cyn gosod y meinicau newydd. Bu Alan Williams gynnig glahnau cyn i Patsy Allen baentio, bu diolch i'r ddau am eu gwaith.

5.6 Llwybrau – cadarnhawyd bod taith gerdded gyda blwyddyn chwech wedi ei gwblhau a bu diolch i'r ysgol am gydweithio gan nodi bod pawb wedi mwynhau. Nodwyd bod yr athrawon yn awyddus trefnu mwy o deithiau bro a pharhau i ddatblygu'r berthynas rhwng yr ygsol a'r Cyngor a'r gymuned. Nodwyd bod angen penodi dyddiadau ar gyefr teithiau cymunedol cyn yr haf, gan nodi byddai teithiau cyson yn gam positif tuag at ddechrau grwp cerdded.

Cadarnhawyd bod y byrddau gwybodaeth wedi cyrraedd, a bu cytuno byddai cadarnhau lleoliadau a threfnu eu gosod cyn gynted a phosib. Cytuno trefnu cyfarfod anffurfiol i gydlynnu lleoliadau a theithiau cerdded unwaith bydd yr aelodau perthnasol ar gael.

Bu tynnu sylw at ymateb gan CSYM ynglyn a darn o lwybr Cadi Rondol, bydd cerrig yn cael eu gosod ar y man gwlypaf yn y flwyddyn ariannol nesaf.

5.7 Pwyllgorau Allanol –

5.7.1 Y Leinws – cafwyd wybod gan Hefina Williams bod y corff bellach wedi'i ddiddymu a cafwyd wybod sut oedd yr arian dros ben wedi ei rannu a chyrff eraill yn y gymuned.

5.7.2 Eisteddfod yr Urdd 2026 – cafwyd wybod gan Hefina Williams bod y pwyllgor apel yn weithgar iawn a bod nifer o weithgareddau ar y gweill. Bu'r cyfarfod gael ei ohurio, ond bydd Hefina Williams yn hapus i adrodd yn ol wedi'r nesaf.

5.7.3 Clwb y Gorlan – bu Carol Whitaker adrodd yn ol wedi cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Nododd bod chwilio am unigolion i ymuno a'r pwyllgor a chefnogi'r gwaith o ymgeisio am grantiau ayyb, yn benodol mae'r corff yn edrych i benodi trysorydd.

5.8 Bioamrywiaeth –

Bu tynnu sylw at ymateb CSYM i dorri gaswellt a blodau gwyllt ar ymyl y ffordd. Nodwyd nad oedd y coed oedd wedi eu gaddo wedi eu plannu eto, ond bod coed tebyg wedu eu plannu mewn ardaloedd eraill ym Mon.

Bu Patsy Allen dynnu sylw at ddyletswydd y Cyngor i adolygu cynllun bioamrywiaeth yn flynyddol a bu nod ei bod wedi cychwyn ar ddatblygu cynllun gweithredu. Cytuno rhannu'r ddogfen gyda'r aelodau a cynnwys eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

## <u>6 Prosiect Cysylltu a Natur</u>

Wedi ei drafod eisioes – gweler llwybrau uchod.

## <u>7 Materion Priffyrdd</u>

Bu tynnu sylw bod angen torri coed ar ymyl yr A5025 er mwyn gallu gweld yr arwyddion 40mya ac arwyddion yn rhybuddio am gerddwyr ger y groesfan. Nodwyd nad oedd gweledbedd i'r sawl sy'n ceisio croesi'r ffordd oherwydd gor dyfiant. Bu Derek Owen gysylltu a'r swyddogion perthnasol.

Bu tynnu sylw at ebost gan CSYM ynglyn a'r arwydd flachio, mae wedi ail ddechrau gweithio ers i CSYM wirio'r cyflenwad trydan. Cytuno cysylltu a hwy i ddiolch.

Nodwyd bod rhai o'r arwyddion rhybuddio heibio'rysgol wedi disgyn i waelod y polyn, cytuno cysylltu a CSYM i dynnu sylw.

## <u>8 Cynllunio</u>

Cadarnhawyd bod unrhyw ddogfennau cynllunio wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost.

8.1 Ceisiadau –

Bu cydnabod bod gohebiaeth rhwng cymdogion ynglyn a chais cynllunio Gadfa Newydd wedi ei rannu gyda'r aelodau er gwybodaeth.

Fairwinds (VAR/2025/19) dim gwrthwynebiad
Maes carafannau Tynrhos (LUE/2025/19) dim gwrthwynebiad, busnes wedi bodoli ers amser

8.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –
Fairwinds (LUP/2025/3) wedi ei ganiatau

8.3 Gorfodaeth – cafwyd ddiweddariad gan y swyddog gorfodaeth fel a ganlyn –
Pant y Clociau – gwahoddiad i'r datblygwyr gyflwyno cais er mwyn rheoleiddio'r sefyllfa
Ty Crwn – cadarnhad bod cais llawn yn cael ei baratoi
Gadfa Newydd -rhybydd tor amod yn cael ei wasanaethu, CSYM am drafod ymhellach.

**9 Materion Ariannol**

9.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£50.00 Cyfnod Sylfaen Ysgol Gynradd Penysarn (adnoddau garddio)
£100.00 Yr Arwydd (rhodd blynyddol)
£10.00 Ysgol Gynradd Penysarn (Gwobr Gwyn Roberts)
£864.59 AJ Gallagher (yswiriant)
£1733.28 JRB Enterprises (bagiau a dosbarthwyr baw ci)
£594.05 Cyflog Clerc
£1608.00 NBB Recycled Furniture (meinicau cysgodfannau bws – TMI)
£752.25 Sion Williams (torri gwair - Mai)
£1126.17 Sion Williams (torri gwair – Ebrill)

Bu'r clerc nodi bod £500 i ddod i'w ad-dalu gan Gyngor Cymuned Llanbadrig tuag at fagiau baw ci wrth fod yr archeb wedi gwneud y mwyaf o gostau postio.

9.2 Ceisiadau am Arian
Bu tynnu sylw at ebost gan Eglwys Llanwenllwyfo yn holi am gyfraniad bu trafod yng nghofnodion mis Mawrth. Bu cytuno mai penderfyniad y Cyngor oedd i beidio a chyfrannu oherwydd bod y gwaith eisioes wedi ei gwblhau.

Cafwyd mwy o wybodaeth gan Bwyllgor y Neuadd am gostau i atgyweirio sylfaen y goeden Nadolig. Gan fod nifer o aelodau'r Cyngor hefyd yn ymddiriedolwyr y Neuadd, ni fu cworwm a bu gohurio'r drafodaeth.

9.3 Archwiliad 2024/25
Cadarnhawyd bod y dogfennau perthnasol yn nwylo'r archwiliwr a bod disgwyl iddo gwblhau'r gwaith yn y dyddiau nesaf.

**10 Coedwig Cymunedol (Perllan)**

Cadarnhawyd bod dogfennau llawn prydles wedi eu derbyn i'w ystyried a'u harwyddo. Nodwyd bod gwaith clirio a thorri gwair wedi ei gwblhau o fewn y dyddiau diwethaf. Nid oes ymateb hyd yma i gais y Cyngor i osod ffens i greu llwybr tu cefn i fyngalos CSYM. Trafodwyd ffiniau'r safle a chytuno gofyn am gyfarfod safle gyda swyddogion perthnasol CSYM i drafod ymhellach. Yn y cyfamser bydd cyfle i edrych yn fanwl ar y dogfennau cyfreithiol.

**11 Llwybr Lon Gors – Lon Lletroed**

Bu cydnabod ebost gan CSYM a chytuno byddai cyfarfod gydag ecolegydd CSYM yn fanteisiol. Byddai cyfle hefyd i drafod cynlluniau ar gyfer y Perllan.

**12 Trafnidiaeth Cyhoeddus (Penysarn – Amlwch)**

Cytuno gohurio cyfarfod gydag Iwan Cadwaladr nes cadarnhau argaeledd aelodau'r Cyngor. Unwaith bydd cadarnhau dyddiad bydd gwahodd cynrychiolaeth o gynghorau eraill ward Twrcelyn i ymuno a'r drafodaeth.

**13 Cysgodfan Bws Pengorffwysfa**

Bu gohurio'r drafodaeth nes y cyfarfod nesaf. Deallwyd bod cwynion am gyflwr yr adeilad, nodwyd bod meinicau wedi eu harchebu ar ei gyfer, ac byddai un o'r byrddau gwybodaeth cylchdeithiau yn cael ei osod ynddo. Byddai o fudd paentio'r tu mewn a thrin y nenfwd. Mae'r llysdyfiant drosto yn hybu bywyd gwyllt.

**14** **Iechyd a Diogelwch**

Cadarnhawyd bod yr arwyddion baw ci wedi cyrraedd erbyn hyn a bu trafod lleoliadau posib i'w gosod. Cytuno i'r aelodau anfon rhestr syniadau i'r clerc er mwy gallu cadarnhau'r lleoliadau mwyaf effeithiol.

**15** **Gohebiaeth**

Cadarnhawyd bod eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon ir aelodau drwy ebost wrth eu derbyn.

**16** **Unrhyw Fater ar gyfer Agenda'r Cyfarfod Nesaf**

Aelodau i gysylltu a'r clerc mewn da bryd os am gynnwys eitemau ar yr agenda.

**17** **Adroddiad Blynyddol 2024/25**

Bu atgoffa'r aelodau bod angen cydlynnu adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol diwethaf – cytuno anfon gwybodaeth a lluniau i Alan Williams cyn gynted a phosib.

**18** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Gorffennaf 8, 2025.

Bu'r cyfarfod orffen am 9.15yh o'r gloch

**Alan Williams, Cadeirydd, Cyngor Cymuned Llaneilian**

CET06/25